# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 7 Rhagfyr 2011**

Amser y cyfarfod:
**12:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(35)

**1. Cwestiynau i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

Gofynnwyd cwestiynau 1 - 6, 8 - 12 ac 14. Ni ofynnwyd cwestiwn 7. Tynnwyd cwestiwn 13 yn ol.

**13.11**
**2. Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol**

Gofynnwyd cwestiynau 1 - 2 a 4. Ni ofynnwyd cwestiwn 3.

**13.16**
**3. Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad**

Atebwyd cwestiynau 1 a 5 gan Peter Black. Atebwyd cwestiynau 3 a 7 gan Sandy Mewies. Atebwyd cwestiynau 4 a 6 gan Rhodri Glyn Thomas. Tynnwyd cwestiwn 2 yn ôl.

**13.31**
**4. Dadl gan Aelodau unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv)**

**NDM4862**

**Mick Antoniw (Pontypridd)**
**Nick Ramsay (Mynwy)**
**Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)**
**Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
**Byron Davies (Gorllewin De Cymru)**
**Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth)**
**Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)**
**Keith Davies (Llanelli)**
**Christine Chapman (Cwm Cynon)**
**Lynne Neagle (Tor-faen)**

**Eluned Parrott (Canol De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r ystod eang o gefnogaeth, gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru, ar gyfer system teithio cyflym integredig (metro) yn seiliedig ar rwydwaith rheilffyrdd y cymoedd;

2. Yn cydnabod nad yw trydaneiddio Rheilffyrdd y Cymoedd wedi'i ddatganoli a bod hynny'n rhagofyniad ar gyfer datblygu'r metro; ac

3. Yn cydnabod y bydd y cyd-destun ariannol presennol, ynghyd â diffyg pwerau benthyca Llywodraeth Cymru, yn golygu y bydd y prosiect yn symud yn ei flaen bob yn dipyn ac y bydd yn galw am ddull cydweithredol wedi'i gydgysylltu gan Lywodraeth Cymru.

**Gyda chefnogaeth:**
Julie James (Gorllewin Abertawe)
Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**14.17**
**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**NDM4875 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ad-drefnu polisi Addysg Uwch i gryfhau safonau addysgu a gwella canlyniadau graddedigion;

b) sefydlu Sefydliadau Addysg Uwch Cymru fel canolfannau rhagoriaeth ar gyfer ôl-raddedigion ac ymchwil; a

c) rhoi blaenoriaeth i gydweithio gwirfoddol yn hytrach na gorfodi Sefydliadau Addysg Uwch i uno.

**Gyda chefnogaeth:**
Aled Roberts (Gogledd Cymru)
Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**15.13**
**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4876 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn un Corff Amgylcheddol.

2. Yn credu na fu digon o graffu ar achos busnes Llywodraeth Cymru yn amlinellu'r uno arfaethedig.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) Gohirio'r uno arfaethedig nes ei fod wedi bod yn destun craffu cyhoeddus llawn; a

b) Rhoi sylw i bryderon difrifol y sector coedwigaeth ynglyn â chynnwys Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn yr uno.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 42 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliant a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu'r cyfan a rhoi yn ei le:

Yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i gynnal ymchwiliad trwyadl i achos busnes Llywodraeth Cymru ynghylch y cynnig i uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn Un Corff Amgylcheddol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 42 | 0 | 11 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio::**

**NDM4876 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu penderfyniad y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd i gynnal ymchwiliad trwyadl i achos busnes Llywodraeth Cymru ynghylch y cynnig i uno Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru yn Un Corff Amgylcheddol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**16.13**
**7. Dadl Plaid Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4874 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) cyflwyno sylwadau brys i Lywodraeth y DU, yn dilyn cyhoeddi Datganiad yr Hydref, ynglyn â'i methiant i ddarparu ysgogiad economaidd digonol i Gymru wrth ymateb i'r sefyllfa economaidd bresennol, ac ynglyn â'i chynigion i gyflwyno tâl sector cyhoeddus rhanbarthol; a

b) mynd ati ar frys i osod ei chynlluniau ei hun ar gyfer ysgogiad economaidd, a ddylai gynnwys prosiectau seilwaith, cymorth i fusnesau a chymorth i bobl ifanc sy'n ddi-waith.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 38 | 0 | 15 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**17.13**
**8. Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4877 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a. pwysigrwydd manwerthu i economi Cymru;

b. gwerth cymdeithasol stryd fawr fywiog i gymunedau lleol; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i warchod y stryd fawr yng Nghymru drwy:

a. Rhoi sylw i anghenion penodol manwerthwyr yn ei hadolygiad o ardrethi busnes a chynlluniau rhyddhad;

b. datblygu arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol a fydd yn cynnwys cyngor ynghylch yr arfer gorau ar gyfer rheoli canol trefi; ac

c. cydnabod effaith datblygiadau ar gyrion trefi ar y stryd fawr yn ei hadolygiad o'r system gynllunio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 40 | 53 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu is-bwynt 2 a).

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 29 | 0 | 24 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel is-bwynt newydd ar ddiwedd pwynt 2:

cyhoeddi strategaeth manwerthu.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 24 | 0 | 29 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4877 Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi:

a. pwysigrwydd manwerthu i economi Cymru;

b. gwerth cymdeithasol stryd fawr fywiog i gymunedau lleol; ac

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i warchod y stryd fawr yng Nghymru drwy:

a. datblygu arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol a fydd yn cynnwys cyngor ynghylch yr arfer gorau ar gyfer rheoli canol trefi; ac

b. cydnabod effaith datblygiadau ar gyrion trefi ar y stryd fawr yn ei hadolygiad o'r system gynllunio.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 45 | 0 | 8 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**18.08**
**Cyfnod Pleidleisio**

**18.12**
**9. Dadl Fer**

**NDM4873 Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):**

Cyfraddau credyd a budd y cyhoedd – a ddylai cyfraddau benthyciadau tymor byr gael eu rheoleiddio

Daeth y cyfarfod i ben am 18.36.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30 ddydd Mawrth, 10 Ionawr 2012**